**Atodiad A**

## YSGOLION YR 21$^{AIN}$ GANRIF









## ADRODDIAD YMGYNGHORI

**YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I GAU YSGOL BABANOD TRALLWNG AC YNA TROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYNRADD COEDPENMAEN ERBYN MIS MEDI 2025 FAN BELLAF.**

Mae'r Adroddiad Ymgynghori a'r Atodiadau hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor

.

RHONDDA CYNON TAF

## Tabl Cynnwys


| **Cynnwys** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Cynnig | 2 |
| 2. | Nod yr Adroddiad Ymgynghori | 2 |
| 3. | Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori? | 2 |
| 4. | Y Broses Ymgynghori | 3 |
| 5. | Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad | 4 |
| 6. | Ymateb Estyn | 18 |
| 7. | Asesiad o'r Ymgynghoriad | 22 |
| 8. | Casgliad | 22 |
| **Atodiadau** | | |
| 1A. | Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gynradd Coedpenmaen | |
| 1B. | Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Babanod Trallwng | |
| 2A. | Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Coedpenmaen | |
| 2B. | Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Babanod Trallwng | |
| 3. | Ymateb Estyn – Cynnig ar gyfer Ysgol Babanod Trallwng | |
| 4. | Adborth gan Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant | |

## 1. Cynnig

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen erbyn mis Medi 2025 fan bellaf.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Cau ysgol a gynhelir.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Asesiadau o Effaith a gafodd eu dosbarthu i'r holl randdeiliaid. Mae'r ddolen i'r dogfennau yma isod:

Cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

## 2. Nod yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (2il Argraffiad) (011/2018). Ei nod yw rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid sydd wedi'u rhestru isod am ganlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal rhwng dydd Llun 30 Medi 2024 a 5pm ddydd Gwener 15 Tachwedd 2024.

## 3. Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori?

Cafodd copi o'r Ddogfen Ymgynghori, a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am y cynnig, ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y Ddogfen Ymgynghori ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

Rydyn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyrff Llywodraethu:
  - Ysgol Babanod Trallwng
  - Ysgol Gynradd Coedpenmaen
- Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid (lle bo modd), ac aelodau staff:
  - Ysgol Babanod Trallwng
  - Ysgol Gynradd Coedpenmaen
- Disgyblion:
  - Ysgol Babanod Trallwng
  - Ysgol Gynradd Coedpenmaen
- Cynghorau Cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig.
- Gweinidogion Cymru.
- Aelodau'r Senedd ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal.
- Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái.
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff.

- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd - Consortiwm Canolbarth y De.
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal.
- Darparwyr Gofal Plant.
- Mudiad Meithrin.
- Menter Iaith.
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Comisiynydd y Gymraeg.
- Cyngor Tref Pontypridd.

## 4. <u>Y Broses Ymgynghori</u>

Cafodd dolen at gopïau electronig o'r ddogfen ymgynghori a'r asesiadau effaith eu hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn adran 3. Daeth copïau papur i law pob un a wnaeth gais am un. Mae'r tabl sy'n dilyn hefyd yn amlinellu'r cyfarfodydd a gafodd eu cynnull gyda'r Cyrff Llywodraethu ac Aelodau Staff a Chynghorau Ysgol Babanod Trallwng ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen.

<table>
<tr><th colspan="4">Lleisio'ch Barn</th></tr>
<tr><th>Ysgolion fydd yn cael eu heffeithio</th><th>Grŵp</th><th>Amser/Dyddiad</th><th>Lleoliad</th></tr>
<tr><td colspan="4">Cyngor Ysgol</td></tr>
<tr><td>Ysgol Babanod Trallwng</td><td>Cyngor Ysgol</td><td rowspan="2">Dydd Llun 4 Tachwedd 2024 am 2.00pm</td><td>Ysgol Babanod Trallwng</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Coedpenmaen</td><td>Cyngor Ysgol</td><td>Ysgol Gynradd Coedpenmaen</td></tr>
<tr><td colspan="4">Corff Llywodraethu a Staff</td></tr>
<tr><td>Ysgol Babanod Trallwng</td><td>Corff Llywodraethu a Staff</td><td>Dydd Mercher 23 Hydref 2024 am 3.45pm</td><td>Ysgol Babanod Trallwng</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Coedpenmaen</td><td>Corff Llywodraethu a Staff</td><td>Dydd Llun 21 Hydref 2024 am 3.45pm</td><td>Ysgol Gynradd Coedpenmaen</td></tr>
<tr><td colspan="4">Sesiwn galw heibio i'r cyhoedd</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2">Rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol</td><td rowspan="2">Dydd Llun 4 Tachwedd 2024 rhwng 3.30pm a 5.30pm.</td><td>Ysgol Babanod Trallwng</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gynradd Coedpenmaen</td></tr>
</table>

Cafodd yr holl gyfarfodydd sydd wedi'u hamlinellu yn y tabl blaenorol eu cynnal wyneb yn wyneb.

Cafodd nodiadau eu cymryd o’r cyfarfod gyda’r Corff Llywodraethu ac aelodau staff Ysgol Gynradd Coedpenmaen ddydd Llun 21 Hydref 2024 am 3.45pm ac Ysgol Babanod Trallwng ddydd Mercher 23 Hydref 2024 am 3.45pm ac mae'r rhain ynghlwm yn <u>*Atodiad 1A – Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Gynradd*</u>

*Coedpenmaen* ac *Atodiad 1B – Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau Staff Ysgol Babanod Trallwng*. Maen nhw'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfod, a'r ymatebion a ddarparwyd lle'r oedd hynny'n briodol.

Cafodd nodiadau eu cymryd o'r cyfarfod gyda Chynghorau Ysgol Ysgol Gynradd Coedpenmaen ac Ysgol Babanod Trallwng ddydd Llun 4 Tachwedd 2024 am 2.00pm ac maen nhw ynghlwm yn *Atodiad 2A – Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Coedpenmaen* ac *Atodiad 2B – Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Babanod Trallwng*. Mae'r nodiadau hyn yn cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfod, a'r ymatebion a ddarparwyd lle'r oedd hynny'n briodol.

Cafodd dwy sesiwn galw heibio eu trefnu hefyd er mwyn i aelodau o'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn. Cynhaliwyd y sesiynau wyneb yn wyneb yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen ac Ysgol Babanod Trallwng ddydd Llun 4 Tachwedd 2024 rhwng 3.30pm a 5.30pm. Yn y sesiynau galw heibio yma, gofynnwyd i bawb gofnodi i mewn er mwyn cofnodi'r lefel bresenoldeb. Mae'r gofrestr presenoldeb yn nodi bod un person wedi cofnodi i mewn yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen a 27 o bobl wedi cofnodi i mewn yn Ysgol Babanod Trallwng. Gofynnwyd i'r sawl a oedd yn bresennol gwblhau Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad a'i chyflwyno. Cafodd cofnod ei wneud o'r sylwadau llafar a wnaed ym mhob sesiwn galw heibio i'r cyhoedd ac mae wedi'i gynnwys o fewn themâu'r Adroddiad Ymgynghori hwn.

## 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu a'r staff a chyfarfodydd y Cyngor Ysgol wedi'u crynhoi yng nghofnodion y cyfarfodydd sydd wedi'u hatodi yn Atodiad 1A a 1B a 2A a 2B, yn y drefn honno.

Cafodd gyfanswm o 160 o ymatebion eu cyflwyno. Cafodd un ymateb ei gyflwyno'n ysgrifenedig a chafodd 158 eu cyflwyno trwy'r arolwg ar-lein. Yn ogystal, cafodd 1,150 o lofnodion eu hychwanegu at ddeiseb ar-lein, ac mae hwn wedi'i ddosbarthu fel un ymateb at ddiben yr Adroddiad Ymgynghori hwn. O'r ymatebion a dderbyniwyd, roedd 16 (10.0%) yn cytuno gyda'r cynnig, 136 yn anghytuno (85.0%) gyda'r cynnig ac 8 (5.0%) ddim yn siŵr am y cynnig. Mae hyn wedi'i grynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| **Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** | | |
|---|---|---|
| **Penderfyniad** | **Nifer** | **%** |
| Cytuno | 16 | 10.0 |
| Anghytuno | 136 | 85.0 |
| Ddim yn siŵr | 8 | 5.0 |
| Dim ateb | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **160** | **100.0** |

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Argraffiad) (011/2018), ceir crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad yn y tabl sy'n dilyn, ynghyd ag eglurhad (lle bo angen).

**I gadarnhau, mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad hwn wedi'u darparu a'u hadolygu gan Aelodau Cabinet y Cyngor.**

| **Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig** (Sylwadau yn yr iaith y'u cyflwynwyd) | |
|---|---|
| **Thema** | **Eglurhad** |
| **Y gallu i staff feithrin perthynas â rhieni/gwarcheidwaid plant o'r dosbarth meithrin yn hytrach na blwyddyn tri.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"Parents/carers of year two pupils [from Trallwng Infants' School] who transfer to year three at Coedpenmaen Primary School have a heightened level of anxiety about change and they put this onto their children - it also takes staff a long time at Coedpenmaen Primary School to build trust and relationships with parents/carers".* | Bydd parhad y profiad addysgol sy'n cael ei gynnig mewn un lleoliad cynradd yn hybu cynnydd mewn teimladau o sefydlogrwydd, sicrwydd a hyder i rieni/gwarcheidwaid a phlant oherwydd y ddarpariaeth addysg mewn un lleoliad. |
| **Bydd yn rhaid i blant sy'n symud o Ysgol Babanod Trallwng i Ysgol Gynradd Coedpenmaen addasu i ddosbarthiadau mwy gyda chymarebau staff i ddisgyblion is.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"For pupils transitioning from Trallwng Infants' School to Coedpenmaen Primary School, there is a significant change in class size, moving from a teacher-to-pupil ratio of 1:17 to 1:30. This increase can be daunting for both pupils and parents/carers, creating a sense of unfairness, especially considering that many schools in Wales operate with a similar 1:30 ratio".* | Mae'r Cyngor yn ariannu ysgolion cynradd ar gyfer dosbarth derbyn i flwyddyn chwech ar gyfer athro i bob bloc o 30 disgybl, yn seiliedig ar gyfartaledd o 3 chyfrif h.y. Ionawr, Mehefin a Medi. Er enghraifft, ar gyfer ysgol gyda 212 o ddisgyblion ar y gofrestr, bydd yr ysgol yn cael ei hariannu ar gyfer 8 athro.<br><br>Mae'r Cyngor yn ystyried y byddai darparu addysg i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Babanod Trallwng ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cynnig y canlynol, ymhlith manteision eraill:<br><br>• Mwy o hyblygrwydd a chyfle i ddisgyblion ddysgu a phrifio.<br>• Posibilrwydd o arbedion ariannol yn nhermau gwasanaethau sy'n deillio mewn ysgol fwy a all gael eu hail-fuddsoddi er budd y disgyblion i gyd.<br>• Rhagor o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol.<br>• Rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu a rhyngweithio â nifer fwy o gyfoedion o'u grŵp blwyddyn eu hunain. |
| **A allai Ysgol Babanod Trallwng ddod yn ysgol sy'n darparu addysg gynradd ar gyfer y dosbarth meithrin i flwyddyn dau ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen ddod yn** | Dydy hyn ddim yn opsiwn yr ymgynghorwyd arno. Yn unol â <u>Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Argraffiad) (011/2018)</u>, cafodd opsiynau eraill eu nodi a'u hystyried yn ofalus. Mae rhai o fuddion ac anfanteision pob |

| | |
|---|---|
| **ysgol sy'n darparu addysg gynradd ar gyfer blynyddoedd tri i chwech?**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"Trallwng Infants' School should be Infants and Coedpenmaen Primary School just a junior school".*<br><br>*"Is there not the possibility to bring some of Coedpenmaen Primary Schools infant years down to Trallwng Infants' School to have a separate infants and junior school that both work to feed into each other".* | opsiwn a gafodd ei ddiystyru wedi'u rhestru yn y Ddogfen Ymgynghori.<br><br>Ym marn y Cyngor, drwy gau Ysgol Babanod Trallwng a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen, mae'n bosibl y byddai modd dod â buddsoddiad gwell i'r cyfleoedd a'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion Ysgol Babanod Trallwng, gan fod modd i ysgolion mwy gael mynediad at ragor o adnoddau. |
| **Mae lle yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen i dderbyn disgyblion o Ysgol Babanod Trallwng.**<br><br>**A oes lle yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen i dderbyn disgyblion o Ysgol Babanod Trallwng?**<br><br>**Pryderon bod lle yn y dosbarth derbyn, blwyddyn un a blwyddyn tri ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Babanod Trallwng yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"Coedpenmaen Primary School has enough places to take Trallwng Infants' School pupils, and more".*<br><br>*"I'd argue that Coedpenmaen Primary School isn't actually fit for purpose for extra pupils at the moment."* | Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn mynd rhagddo, mae data byw yn dangos:<br><br>• Ym mlwyddyn un o'i hagor (2025/2026) bydd gan Ysgol Gynradd Coedpenmaen gapasiti dros ben o 25 o ddisgyblion oedran statudol.<br>• Mae modd darparu ar gyfer pob disgybl sy'n trosglwyddo o Ysgol Babanod Trallwng.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd lle ar draws yr holl grwpiau blwyddyn ar gyfer y disgyblion ychwanegol o Ysgol Babanod Trallwng yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Er mwyn hwyluso hyn, byddai modd i Ysgol Gynradd Coedpenmaen edrych ar ailstrwythuro ei dosbarthiadau neu ddarparu staff addysgu ychwanegol yn y dosbarthiadau. |
| **Does dim modd gwella cyflwr yr adeilad yn Ysgol Babanod Trallwng.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"I cannot see how the school can be brought up to the required standards for accessibility and safety."* | O ganlyniad i rai pryderon a godwyd ynghylch y manylion a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg cyflwr, mae'r Cyngor wedi adolygu'r wybodaeth. Yn ystod y cyfnod rhwng cynnal ymweliad safle'r arolwg cyflwr a'r broses sicrhau ansawdd sy'n digwydd cyn i'r arolwg cyflwr gael ei gymeradwyo (sy'n cynnwys asesiad o gost y gwaith gofynnol gan arbenigwyr), cafodd gwaith penodol ei gwblhau nad oedd wedi'i adlewyrchu yn y ffigwr ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a |

| | |
|---|---|
| | gyhoeddwyd yn adroddiad y Cabinet a'r ddogfen ymgynghori.<br><br>Yng ngoleuni’r wybodaeth newydd yma, ac i sicrhau tryloywder llawn, ym mis Tachwedd 2024, cynhaliodd y Cyngor arolygon cyflwr eiddo newydd o Ysgol Babanod Trallwng ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen.<br><br>Yn ôl yr arolygon cyflwr eiddo diweddaraf a gynhaliwyd gan y Cyngor, mae Ysgol Babanod Trallwng wedi'i graddio'n B o ran ei chyflwr tra bod Ysgol Gynradd Coedpenmaen wedi'i graddio'n B o ran ei chyflwr, lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon, yn y drefn honno. Yn ôl yr arolwg cyflwr eiddo blaenorol a gynhaliwyd gan y Cyngor cafodd Ysgol Babanod Trallwng ei raddio'n C o ran ei chyflwr ac yn ôl yr arolwg cyflwr eiddo blaenorol a gynhaliwyd gan y Cyngor cafodd Ysgol Gynradd Coedpenmaen ei raddio'n B o ran ei chyflwr. Dylid nodi bod buddsoddiad pellach ers cwblhau'r arolwg cyflwr adeiladau yn 2022 wedi cyfrannu at ail-gategoreiddio cyflwr Ysgol Babanod Trallwng.<br><br>Yn ôl yr arolygon cyflwr eiddo diweddaraf a gynhaliwyd gan y Cyngor, y ffigwr ôl-groniad gwaith cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Babanod Trallwng yw tua £182,701, a'r ffigwr ôl-groniad gwaith cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Gynradd Coedpenmaen yw £282,775. Yn ôl yr arolygon cyflwr eiddo blaenorol a gynhaliwyd gan y Cyngor, roedd gan Ysgol Babanod Trallwng ffigwr ôl-groniad gwaith cynnal a chadw o tua £227,760, a'r ffigwr ôl-groniad gwaith cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Gynradd Coedpenmaen oedd tua £122,842.<br><br>Yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae dyletswydd ar y Cyngor i gynnwys gwybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghori yn ymwneud ag ansawdd yr adeiladau a’r ystafelloedd yn yr holl ysgolion presennol sy’n debygol o gael eu heffeithio gan gynnig, gan gynnwys cyfeiriad at arolwg cyflwr diweddaraf yr awdurdod lleol. |
| **Mae Estyn wedi sicrhau ansawdd y tîm arwain yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen ac wedi cydnabod effeithiolrwydd yr** | Mae Estyn wedi sicrhau ansawdd y tîm arwain yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen ac wedi cydnabod effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth sy'n cael ei ddarparu gan y pennaeth. Yn eu |

| | |
|---|---|
| **arweinyddiaeth sy'n cael ei ddarparu gan y pennaeth.** | gwerthusiadau diweddaraf, nododd Estyn “The headteacher provides effective and determined leadership” a “the headteacher has prioritised professional learning for individuals and teams, setting high expectations for pupils' learning.” (adroddiad Saesneg yn unig). Mae taith Ysgol Gynradd Coedpenmaen allan o fesurau arbennig wedi bod yn dyst i'r gwelliannau sylweddol a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi'u hysgogi gan atebolrwydd cadarn a chraffu parhaus ar yr ysgol a'r uwch dîm arwain. Mae Ysgol Gynradd Coedpenmaen wedi derbyn adborth cadarnhaol yn gyson, gydag adroddiadau ar wahân yn cael eu cyhoeddi ar ôl pob ymweliad interim.<br><br>Yn ogystal, mae Estyn wedi nodi Ysgol Gynradd Coedpenmaen fel enghraifft o arfer dda i'w rhannu, gydag ysgolion eraill yn cael eu gwahodd i ymweld ac arsylwi ar eu gwaith. At hynny, mae Estyn wedi gofyn i waith cwricwlwm Ysgol Gynradd Coedpenmaen gael ei ddefnyddio mewn sesiynau hyfforddi ar gyfer arolygwyr cymheiriaid, gan ddilysu ymhellach y cynnydd sydd wedi'i wneud. |
| **Dylid cynnig dewis i rieni/gwarcheidwaid.**<br><br>**Fyddaf i ddim yn anfon fy mhlant i Ysgol Gynradd Coedpenmaen.**<br><br>**Fyddaf i ddim yn anfon fy mhlentyn i Ysgol Gynradd Coedpenmaen, felly byddaf yn mynd i gostau cludiant o'r cartref i gludo fy mhlentyn i'r ysgol ac oddi yno.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â’r thema yma'n cynnwys:<br><br>*“I think it’s disgusting that we are expected to send our children to Coedpenmaen Primary School.”*<br><br>*“If I had wanted my little girl to go to Coedpenmaen Primary School I would’ve chosen that school as my first option.”*<br><br>*“Even if Trallwng Infants’ School closes I would never send my child to Coedpenmaen Primary* | Pwrpas yr ymgynghoriad yw ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud a chymryd rhan yn y broses ymgynghori.<br><br>Dewis y rhiant/gwarcheidwad yw ysgol y plentyn. Byddwn ni'n ymdrin â cheisiadau yn unol â <u>Chod Derbyn i Ysgolion 2013 (005/2013)</u> Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Cyngor yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae’r term ‘ysgol addas’ yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig gynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo’n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion oed ysgol statudol sy'n derbyn addysg gynradd a thair milltir i bob |

| | |
|---|---|
| *School due to all the negative comments I hear about it."* | disgybl o oed ysgol statudol (blwyddyn 7 i 11) sy'n derbyn addysg uwchradd.<br><br>Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus diweddar a gafodd ei gychwyn gan Gabinet y Cyngor, mewn perthynas â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol newydd arfaethedig ar gyfer y Cyngor, yr wybodaeth isod yw'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag Ysgol Babanod Trallwng ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen:<br><br>• Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion oed ysgol statudol sy'n derbyn addysg gynradd yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.<br>• Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, yn hytrach nag o ddechrau ysgol statudol fel sy'n ofynnol gan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.<br>• Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (ffydd/yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. |
| **Effaith ar y Gymuned**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"This is a local school that acts more like a family…it has been the centre piece of Trallwng for so long."*<br><br>*"Trallwng Infants' School has been a pivotal part of the local community for years! Generations of families have attended the small community based school."* | Mae Asesiad Effaith ar y Gymuned ar gyfer y cynnig wedi'i baratoi yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Argraffiad) (011/2018).<br><br>Fodd bynnag, yn ôl y cyngor yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, mae'r ddogfen wedi'i hailasesu a'i diweddaru yn dilyn adolygiad o'r sylwadau sydd wedi'u derbyn trwy gydol y broses ymgynghori. Mae'r fersiwn wedi'i diweddaru o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar gael ar wefan y Cyngor ar ôl cyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad yn ffurfiol. |

| | |
|---|---|
| *"It is a staple in the community and has been for many, many generations. No one in the community wants this."* | |
| **Effaith ar rieni/gwarcheidwaid**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"[RCTCBC] seems hell bent on closing things without understanding the impact on the parents/carers."* | Rydyn ni'n rhagweld na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor a dylid nodi ar yr adeg yma yn y broses ymgynghori statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion bod y Cyngor yn ystyried bod effaith gyffredinol y cynnig yn gadarnhaol. |
| **Effaith ar ddisgyblion.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"I believe that Trallwng Infants' School offers an opportunity for children to thrive in an environment that focuses on the individual child and promotes emotional wellbeing as well as educational needs. Trallwng Infants' School has a proven track record of excellence that should be recognised and promoted not taken away. Pontypridd is recognised as an area of deprivation and as such the children benefit from a school such as Trallwng Infants' School."*<br><br>*"The proposal to close Trallwng Infants' School does not put the needs of pupils…first and [RCTCBC] should be ashamed of this."* | Mae lles pob disgybl wedi'i ystyried ac mae'n bwysig iawn i'r Cyngor. Bydd y trefniadau pontio sy'n cael eu darparu yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i helpu'r disgyblion i lywio'r newidiadau ac ymgartrefi yn eu hysgol newydd mor gyflym â phosibl.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r Cyngor yn ystyried buddion y cynnig i blant a phobl ifainc yn unol â'r saith prif amcan sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. |
| **Effaith ar staff**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"Staff at [Trallwng Infants'] School are left in a very precarious situation regarding any sort of job security."* | Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, ein bwriad fyddai argymell i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coedpenmaen fod unrhyw swyddi ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i gynnydd yn nifer y disgyblion, islaw haen yr Uwch Reolwyr, yn cael eu neilltuo i'r staff presennol sy'n cael eu cyflogi yn Ysgol Babanod Trallwng, yn y lle cyntaf. Mae'r broses yma'n golygu y byddai staff Ysgol Babanod Trallwng yn cael y cyfle cyntaf i wneud cais am swyddi ychwanegol yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. Os byddan nhw'n llwyddiannus, byddan nhw'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coedpenmaen pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith. Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. |

| | |
|---|---|
| | Bydd swyddogion Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Babanod Trallwng a'u gwneud yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth personol sydd ar gael.<br><br>Mae'r Cyngor yn ystyried y byddai darparu addysg i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Babanod Trallwng ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cynnig y canlynol, ymhlith manteision eraill:<br><br>• Rhagor o gyfleoedd i'r holl staff o ran dilyniant a datblygiad proffesiynol, sy'n cael eu creu mewn amgylchedd ysgol gynradd 3 i 11 oed.<br>• Llai o alw ar staff gan y bydd cyfrifoldebau dros ddatblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, a rhwymedigaethau statudol ADY, yn cael eu rhannu. |
| **Llai o gyfnodau pontio i blant.** | Ysgol Gynradd Coedpenmaen yw'r ysgol gynradd gysylltiedig sy'n rhoi darpariaeth addysg blynyddoedd 3 i 6 ar gyfer dalgylch Ysgol Babanod Trallwng. Mae'r berthynas rhwng y ddwy ysgol wedi'i hen sefydlu a, phe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, dylai hyn helpu i sicrhau cyfnod pontio di-dor. |
| **Plîs peidiwch â chau Ysgol Babanod Trallwng.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"I absolutely disagree with Trallwng Infants' School closing."* | Mae'r Cyngor yn deall bod ymgynghoriad statudol ar gynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion fel hyn yn sensitif, a bod llawer o ffactorau y mae angen eu hystyried cyn dod i benderfyniad terfynol.<br><br>Mae'n bwysig ailadrodd nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ar yr ymgynghoriad statudol ar gynnig yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion, ac mae gan randdeiliaid gyfle pwysig yn awr i ddweud eu dweud ar y cynnig.<br>Rydyn ni'n rhagweld na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor a dylid nodi ar yr adeg yma yn y broses ymgynghori statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion bod y Cyngor yn ystyried bod effaith gyffredinol y cynnig yn gadarnhaol. |
| **Ffafrio cyfnodau oedran ar wahân ar gyfer addysg gynradd.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys: | Bydd ysgol gynradd 3 i 11 oed yn caniatáu i bob disgybl rannu deilliannau eu dysgu dros amser a mynediad i amgylchedd anogol lle mae modd i ddisgyblion ddysgu a chwarae gyda'i gilydd dros gyfnod hwy o amser. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth a |

| | |
|---|---|
| *" I believe that separating very young learners to junior learners would help these young minds prepare themselves in big schools like Coedpenmaen Primary School.”*<br><br>*“Transitioning to a primary school in year three presents numerous challenges for pupils…the shift to a new school environment can be disruptive to children’s education, as they must adapt to unfamiliar surroundings, new staff, new peers, and different expectations. Children may struggle to adapt to a new environment, which includes different routines, expectations, and social dynamics. This adjustment period can lead to anxiety and stress.”*<br><br>*“Joining a primary school at year three when friendships are already established is difficult, socially and emotionally, for all children involved”.* | gwerthfawrogiad o gryfderau, sgiliau a phersonoliaethau amrywiol ei gilydd a ddylai gael effaith gadarnhaol ar sgiliau cymdeithasol a datblygiad perthnasoedd. |
| **Efallai y bydd niferoedd disgyblion yn yr ardal yn cynyddu yn y dyfodol.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â’r thema yma'n cynnwys:<br><br>*“Trallwng Infants’ School may have small numbers now, but no one can say with any certainty that the numbers won’t increase…Pontypridd is now a much more attractive place to live for people working in Cardiff… the Metro will make this possible.”*<br><br>*“Pontypridd is fast becoming a ‘satellite’ town for Cardiff, and this will accelerate with the Metro.”* | Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Argraffiad) (011/2018), mae’r Ddogfen Ymgynghori yn amlinellu niferoedd disgyblion yn Ysgol Babanod Trallwng ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen dros y pum mlynedd flaenorol a’r pum mlynedd i ddod.<br><br>Yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion presennol a rhagolygon o ran niferoedd y disgyblion, bydd digon o le i gynnwys yr holl ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn Ysgol Babanod Trallwng ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen. |
| **Mae ysgolion llai yn well.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â’r thema yma'n cynnwys:<br><br>*“We need small schools so the children can have the best start to their education.”*<br><br>*“Smaller schools offer a far higher level of nurture which is essential during the formative years of a child’s education.”* | Mae dyletswydd a chyfrifoldeb ar bob Cyngor i sicrhau bod pob disgybl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, waeth beth yw maint yr ysgol.<br><br>Efallai bydd creu ysgolion mwy yn meithrin gallu o fewn strwythurau staffio ac yn creu cyfleoedd i ddatblygu swyddi lles a/neu gyswllt teuluol mwy arbenigol a fydd yn amlwg o fudd i blant a theuluoedd mwy agored i niwed. |
| **Bydd yn gwneud arbedion ariannol.** | Caiff goblygiadau ariannol y cynnig eu hamlinellu yn y Ddogfen Ymgynghori. Dylid |

| | |
|---|---|
| **Mae ysgolion llai yn cael trafferthion ariannol.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â’r thema yma'n cynnwys:<br><br>*“Financially doesn't make sense to keep two schools open so close to each other.”*<br><br>*“A small school will struggle to remain financially viable.”* | nodi bod y rhesymau dros y cynnig yn amlochrog ac nad ydyn nhw'n seiliedig ar wneud arbedion ariannol yn unig.<br><br>Caiff cyllid ei ddyrannu i bob ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr, ac felly mae gan ysgolion mwy rhagor o hyblygrwydd ariannol ac arbedion maint. Gan mai ysgol fach yw Ysgol Babanod Trallwng, bydd hefyd yn wynebu pwysau ychwanegol gan nad oes modd iddyn nhw elwa o'r arbedion effeithlonrwydd sy'n cael eu cynhyrchu'n aml mewn ysgolion mwy, e.e. rhagor o staff i rannu'r ystod eang o swyddogaethau sydd eu hangen, h.y. Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), arweinwyr cwricwlwm, arweinwyr presenoldeb, ymddygiad a diogelu ac ati.<br><br>Mae gan ysgolion mwy o faint mwy o botensial ar gyfer arbedion maint ac effeithlonrwydd ariannol y mae modd eu cronni a'u hail-fuddsoddi er budd pob disgybl, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed. |
| **Pam nad yw'r Cyngor wedi buddsoddi mewn gwella cyflwr Ysgol Babanod Trallwng?**<br><br>**Mae adeilad Ysgol Babanod Trallwng wedi cael llawer o welliannau yn ddiweddar.**<br><br>**Mae swm sylweddol o arian wedi ei wario ar Ysgol Babanod Trallwng dros y blynyddoedd diwethaf a fydd yn cael ei wastraffu.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â’r thema yma'n cynnwys:<br><br>*“Why is Trallwng Infants’ School not worth investing in?”*<br><br>*“[Why did RCTCBC] invest in [Trallwng Infants] School last summer by installing the cooking facilities?”*<br><br>*“Recent spend at [Trallwng Infants’ School i.e. kitchen is a waste of money.”* | Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod ei adeiladau'n ddiogel, yn dal dŵr ac yn gynnes. Mae'r Cyngor wedi gwneud hynny. Mae Carfan Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor a'i gontractwyr wedi ymweld ag Ysgol Babanod Trallwng yn rheolaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw cylchol ac arolygon o offer mecanyddol a thrydanol.<br><br>Mae pob ysgol yn Rhondda Cynon Taf yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau ac mae gwaith yn cael ei gynnal a'i reoli drwy'r cytundeb yma.<br><br>Rydyn ni'n cydnabod bod cyllid wedi’i fuddsoddi yn yr ysgol dros y 2 flynedd ariannol ddiwethaf i uwchraddio cegin yr ysgol er mwyn hwyluso’r gwaith o gyflwyno menter Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant ysgolion cynradd Llywodraeth Cymru. Gosodwyd cyfrifoldeb statudol ar bob Awdurdod Lleol i roi’r polisi newydd yma ar waith gan Lywodraeth Cymru, ac o’r herwydd sicrhawyd bod cyllid grant ar gael gan Lywodraeth Cymru i alluogi’r polisi newydd yma i ddod yn weithredol. Cafodd y cyllid grant yma'i ddefnyddio i wneud y |

| | |
|---|---|
| | gwelliannau hanfodol hyn er mwyn i'r Cyngor gydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol newydd a osodwyd arno.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae gwaith a gafodd ei gynnal yn yr ysgol y flwyddyn ariannol yma wedi cyflwyno ystafell synhwyraidd newydd, sy'n ddarpariaeth a groesawyd gan yr ysgol ac sydd o fudd mawr i'r disgyblion yno. |
| **Mae'r rhesymau sydd wedi'u hamlinellu yn y Ddogfen Ymgynghori dros gau'r ysgol yn ddiffygiol ac yn anghywir.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"[The proposal] is flawed no actual savings projected."*<br><br>*"Current proposals and reasoning for closure are fundamentally flawed and inaccurate."* | Mae'r data sy'n rhan o'r Ddogfen Ymgynghori yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Argraffiad) (011/2018). |
| **Mae llwybr cerdded diogel eisoes.**<br><br>**Byddai'n arwain at gynnydd yn nifer y ceir ar y ffordd gan y byddai'n rhaid i rieni/gwarcheidwaid gludo eu plant i'r ysgol mewn car yn hytrach na cherdded.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"Coedpenmaen Primary School is within a safe walking distance for all pupils already accessing Trallwng Infants' School."*<br><br>*"I will have to drive my children to school if this change happens and there will be more cars on the road."* | Mae tua 0.2 milltir rhwng Ysgol Babanod Trallwng ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen sydd yn is na'r pellter o 1.5 milltir sy'n cael ei ganiatáu yn y meini prawf cymhwyster ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol a restrir uchod.<br>Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, mae llwybr cerdded ar gael i ddisgyblion Ysgol Babanod Trallwng gerdded i Ysgol Gynradd Coedpenmaen. O ganlyniad, fydd gan unrhyw ddisgybl yn nalgylch presennol Ysgol Babanod Trallwng mo'r hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. |
| **Mae Arolwg Estyn gwell gan Ysgol Babanod Trallwng.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"I think it's disgusting that we are expected to send our children to Coedpenmaen Primary School when they have been in desperate measures for a long time while Trallwng Infants' School has excelled in every Estyn report and has been called exceptional."* | Cafodd Ysgol Babanod Trallwng ei harolygu gan Estyn ym mis Gorffennaf 2022. Doedd dim angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol yn dilyn yr arolygiad. Argymhellodd Estyn welliannau i Ysgol Babanod Trallwng eu rhoi ar waith er mwyn codi ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael.<br><br>O ganlyniad i arolwg Estyn ym mis Gorffennaf 2022, lluniodd Ysgol Babanod Trallwng gynllun gweithredu i ddangos sut y byddai'n |

| | |
|---|---|
| *“The quality of education offered at Trallwng Infants’ School is excellent, unlike the struggling Coedpenmaen Primary School.”* | mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd gan Estyn.<br><br>Cafodd Ysgol Gynradd Coedpenmaen ei harolygu gan Estyn ym mis Mai 2022. Argymhellodd Estyn welliannau i Ysgol Gynradd Coedpenmaen eu rhoi ar waith er mwyn codi ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael.<br><br>O ganlyniad i arolwg Estyn ym mis Mai 2022, cafodd Ysgol Gynradd Coedpenmaen ei gosod yn y categori statudol o fesurau arbennig. Yn dilyn gwaith monitro tymhorol gan Estyn, ym mis Ebrill 2024, barnwyd bod Ysgol Gynradd Coedpenmaen wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’i chynllun gweithredu ôl-arolygiad a chafodd ei thynnu oddi ar restr Estyn o ysgolion sydd angen mesurau arbennig.<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn y gallai’r cynnig i gau Ysgol Babanod Trallwng, a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Coedpenmaen erbyn mis Medi 2025 fan bellaf, gael effaith gadarnhaol fawr ar bob un o bum maes arolygu Estyn, fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghori.<br><br>Mae ymateb llawn Estyn mewn perthynas â'r cynnig yma wedi'i gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad Ymgynghori hwn. |
| **Bydd yn cyflwyno darpariaeth addysg gyson.**<br><br>**Bydd yn darparu darpariaeth addysg estynedig a gwell.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â’r thema yma'n cynnwys:<br><br>*“[Will] provide consistency with learning for the benefit of the children.”*<br><br>*“I believe one school will enhance the education.”* | Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, gallai fod mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion hefyd yn sgil amgylchedd addysgol estynedig a gwell i ddysgu a thyfu ynddo, a bydd mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu a rhyngweithio â niferoedd mawr o’u cyfoedion yn eu grŵp blwyddyn.<br><br>Bydd symud disgyblion Ysgol Babanod Trallwng, sy'n ysgol fach, i ysgol fwy Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio, cydgysylltu a rhannu arbenigedd a phrofiad. Mae’n bosibl y bydd ysgolion llai yn ei chael hi’n fwy anodd cyflwyno holl Feysydd Dysgu a Phrofiad Cwricwlwm i Gymru gan fod llai o staff gyda nhw i arbenigo ac i arwain ar y cwricwlwm a datblygiadau strategol. Bydd modd i ysgolion |

| | |
|---|---|
| | mwy ddarparu mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion oherwydd yr amgylchedd addysgol estynedig a gwell ar gyfer dysgu a datblygu. Mae hefyd mwy o gyfle i staff ddatblygu arbenigeddau ac ymyraethau mwy pwrpasol, ac mae hyn yn bwysig o ran dilyniant disgyblion a chyflawniad deilliannau addysgol da i bawb. |
| **A fydd y cymorth o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n cael ei ddarparu i blant yn Ysgol Babanod Trallwng yn parhau?**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"[Trallwng Infants'] School helped our son [who has ALN] every single step of the way."*<br><br>*"Trallwng Infants' School has sensory room where Coedpenmaen Primary School doesn't."* | Bydd pob disgybl ag ADY yn parhau i dderbyn cymorth. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cynghorau wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifainc. Mae gan blant a phobl ifainc Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes gyda nhw anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer.<br><br>Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn argymell bod lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar ac ysgolion yn rhoi ymateb graddedig ar waith o ran diwallu'r anghenion yma. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn / person ifanc.<br><br>Byddwn ni'n cyflawni'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb yma waeth pa fath o ysgol mae'r plentyn yn ei mynychu. |
| **Bydd plant iau yn elwa o ryngweithio â phlant hŷn.**<br><br>Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema yma'n cynnwys:<br><br>*"In a primary school, younger children often benefit from observing and interacting with older peers."* | Mae ysgol fach yn anochel yn darparu llai o gyfleoedd i ddisgyblion ryngweithio ag ystod eang o blant a phobl ifainc o'r un oedran ac i ddatblygu grwpiau cyfeillgarwch estynedig. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu a rhyngweithio â nifer fwy o gyfoedion o'u grŵp blwyddyn eu hunain. |

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ac yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn:

1. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?

2. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
3. Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

Mae'r tabl sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr a atebodd y cwestiynau. O ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd, bydd yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg sy'n dod law yn llaw â'r cynnig yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

| **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** (Sylwadau yn yr iaith y'u cyflwynwyd) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiynau** | **Atebion** | | | | | |
| | **Nac ydw** | | **Ydw** | | **Ddim yn siŵr** | |
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg? | 65 | 41.1 | 15 | 9.5 | 78 | 49.4 |
| Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | 56 | 35.4 | 8 | 5.1 | 94 | 59.5 |
| Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg? | **Cynyddu Effeithiau Cadarnhaol** | | **Lleihau Effeithiau Negyddol** | | **Ddim yn siŵr** | |
| | • There would be more opportunity for pupils to speak Welsh with older pupils and more staff.<br>• There will be consistent and progressive approaches to the teaching and learning of the Welsh language when pupils are in one school for their primary education.<br>• The continual progression in one school for primary education will only increase | | • Trallwng Infants' School already uses a lot of Welsh with their teaching. My son who is four often comes home and sings Welsh songs. I don't think you wouldn't get that in another school.<br>• Smaller classes give more options for direct learning and identifying issues earlier than in bigger over filled classrooms. | | Dd/B. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | positively on pupils building upon their knowledge and understanding of the Welsh language. | By hiring Trallwng Infants' School staff and moving them to Coedpenmaen Primary School. | |

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Felly yn rhan o'r gwaith o geisio barn ar y cynnig, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys y cwestiwn a ganlyn:

1. Sut byddai'r cynigion yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:

- Rhyw
- Oedran
- Ethnigrwydd
- Anabledd
- Rhywioldeb
- Crefydd neu gred
- Hunaniaeth rhywedd
- Statws perthynas
- Beichiogrwydd
- Dewis iaith

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd y mwyafrif, sef 94.3%, na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar unrhyw un o'r nodweddion a gafodd eu rhestru. Dywedodd 2.6% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Anabledd', dywedodd 1.3% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Oedran' a dywedodd 0.6% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodweddion 'Beichiogrwydd', 'Dewis Iaith' a 'Statws Perthynas'.

O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y gallai'r cynnig gael effaith negyddol arnyn nhw oherwydd eu hanabledd. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r nodwedd yma'n cynnwys:

- Trallwng Infants' School supported me well with my ALN.
- It would affect my son who has ALN.
- I suffer from arthritis and living further distance away the school will make walking there will be more difficult. Trallwng Infants' School is only five minutes from my house so is manageable.

O ganlyniad i'r ymatebion yma, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ymwneud â'r cynnig yma'n cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

## 6. Ymateb Estyn

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (2il Argraffiad) (011/2018), mae'r ymateb i'r cynnig gan Estyn wedi'i ddarparu'n llawn yn *Atodiad 3 - Ymateb Estyn*. Nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (2il Argraffiad) (011/2018) ac nid yw'r Ddeddf Safonau a

Threfniadaeth Ysgolion 2013 yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Roedd Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Coedpenmaen, fodd bynnag, mae effaith y cynnig ar ddysgu disgyblion a fyddai wedi mynychu Ysgol Babanod Trallwng yn llai clir.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Argraffiad) (011/2018), mae'r meysydd ymateb gan Estyn sy'n gofyn am eglurhad wedi'u nodi yn y tabl sy'n dilyn.

| **Ymateb Estyn** | |
|---|---|
| **Ymateb Estyn** | **Eglurhad** |
| Nid yw'r cynnig yn gwneud yn glir sut gallai trefniadau derbyn effeithio ar y 40.0% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Babanod Trallwng o'r tu allan i'w dalgylch ar hyn o bryd, nac yn rhoi sicrwydd pendant y bydd yr holl ddisgyblion sy'n cael eu heffeithio yn gallu trosglwyddo i Ysgol Gynradd Coedpenmaen os byddant yn dewis gwneud hynny. | Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd Coedpenmaen ddau nifer derbyn cyhoeddedig. Un ar gyfer dosbarth meithrin i flwyddyn dau, sef 25, ac un ar gyfer blynyddoedd tri i chwech, sef 49. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd y nifer derbyn cyhoeddedig ar gyfer Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cael ei ddiwygio i 40 ar gyfer pob grŵp blwyddyn (dosbarth meithrin i flwyddyn chwech).<br><br>Yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion presennol a rhagolygon o ran niferoedd y disgyblion, bydd digon o le i gynnwys yr holl ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn Ysgol Babanod Trallwng ac Ysgol Gynradd Coedpenmaen. |
| Dydy'r awdurdod lleol ddim yn rhoi manylion am yr arbedion ariannol posibl a allai gael eu gwneud o'r cynnig, ac nid yw'n dangos sut bydd y rhain yn cael eu hailfuddsoddi chwaith, heblaw i nodi, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, y bydd Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn derbyn cynnydd yn ei chyllid o ganlyniad i'r disgyblion ychwanegol ar y gofrestr. | Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, yr arbediad ariannol fydd £105,000. Mae'r arbediad yma'n bennaf yn cynnwys cost cyfandaliad penaethiaid ynghyd â chostau adeiladau. |
| Dydy'r cynnig ddim yn nodi'n glir beth yw cwmpas a goblygiadau ariannol y newid arfaethedig i staff sy'n cael eu cyflogi yn y naill ysgol neu'r llall ar hyn o bryd. | Mae'r Cyngor yn ariannu ysgolion cynradd ar gyfer dosbarth derbyn i flwyddyn chwech ar gyfer athro i bob bloc o 30 disgybl, yn seiliedig ar gyfartaledd o 3 chyfrif h.y. Ionawr, Mehefin a Medi. Er enghraifft, ar gyfer ysgol gyda 212 o ddisgyblion ar y gofrestr, bydd yr ysgol yn cael ei hariannu ar gyfer 8 athro.<br><br>Mae'r Cyngor yn defnyddio cyflog cyfartalog ysgol unigol ac nid cyfartaledd ar draws y Cyngor, i sicrhau bod modd i ysgolion benodi ar sail teilyngdod ac nid ar sail ariannol. |

| | |
|---|---|
| | Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, gallai arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion mewn ysgolion cyfagos a allai arwain at athrawon yn symud i fand athrawon uwch mewn ysgol gyfagos, a fyddai angen penodi athrawon ychwanegol, ynghyd â staff cymorth dysgu. |
| Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth gyfyngedig yn ei gynnig i effaith y newidiadau ar yr ansawdd a'r safonau mewn addysg. Er enghraifft, mae'n crynhoi'r manteision canfyddedig i ddisgyblion ac i staff, yn cynnwys cyfnod pontio mwy di-dor ar gyfer disgyblion rhwng Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3 a mwy o gyfle i staff ddatblygu'n broffesiynol a dosbarthu cyfrifoldebau o fewn tîm mwy. Fodd bynnag, mae ei ystyriaeth i'r effaith ar safonau dysgu yn canolbwyntio ar 'arbedion maint' ac nid ar effaith debygol y cynnig ar safonau a chynnydd disgyblion. Yn yr un modd, nid yw'n mynd i'r afael â'r effaith ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda. | **<u>Effaith ar Arweinyddiaeth a Rheoli</u>**<br><br>Yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen mae strwythur arweinyddiaeth sefydlog a chydlynol, ac mae'r holl staff yn glir ynghylch eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau atebolrwydd. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai pennaeth Ysgol Gynradd Coedpenmaen, sy'n darparu arweinyddiaeth effeithiol a phenderfynol, yn sicrhau y byddai unrhyw staff newydd sy'n cael eu penodi yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cael eu sefydlu'n gadarn ac yn gynhwysfawr i systemau a phrosesau Ysgol Gynradd Coedpenmaen er mwyn cynnal addysgu a dysgu effeithiol.<br><br>Yn ogystal, mewn partneriaeth â'r Corff Llywodraethu a'r Uwch Dîm Arwain, byddai pennaeth Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn sicrhau bod yr holl staff newydd yn cael eu cefnogi trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol strwythuredig a'u system "cyfaill" staff presennol i ddeall eu rolau arwain a rheoli yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen.<br><br>Yn adroddiad Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Coedpenmaen ym mis Ebrill 2024, mae'n nodi bod "now a culture of learning in Coedpenmaen Primary School with a strong willingness amongst staff to share their practice and learn from others" a bod "the wide-ranging opportunities leaders have provided for staff to collaborate have contributed strongly to improvements in pupils' learning and staff's own sense of belonging" (adroddiad Saesneg yn unig). Felly, byddai unrhyw newidiadau posibl i'r strwythurau staffio presennol yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen, o ganlyniad i'r cynnig, yn rhoi cyfleoedd strategol i'r pennaeth a'r Corff Llywodraethu ddatblygu a gwella'r strwythurau arweinyddiaeth a rheoli presennol. Yn ogystal, byddai unrhyw ddisgyblion newydd sy'n ymuno ag Ysgol Gynradd Coedpenmaen hefyd yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o'r grwpiau arweinyddiaeth disgyblion sydd â "clear focus and impact positively on key areas of the Coedpenmaen Primary School work". |

| | |
|---|---|
| | **<u>Effaith ar Ansawdd Safonau mewn Addysg ac ar Safonau a Chynnydd Disgyblion</u>**<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, barn y Cyngor yw na fyddai unrhyw effaith andwyol ar safonau addysg y disgyblion y byddai eu rhieni/gwarcheidwaid yn dewis parhau ag addysg eu plentyn yn Ysgol Gynradd Coedpenmaen. Ers ei harolygiad craidd mae Ysgol Gynradd Coedpenmaen wedi bod ar daith gref o welliant, dros dri mis ar hugain, yn erbyn ei holl argymhellion, a arweiniodd at ei thynnu o'r rhestr o ysgolion sydd angen Mesurau Arbennig ym mis Ebrill 2024. Mae Ysgol Gynradd Coedpenmaen wedi gwneud cynnydd arbennig o dda gan sicrhau bod athrawon yn cydweddu cyfleoedd addysgu a dysgu yn agos i anghenion disgyblion. Yn adroddiad monitro Estyn, Ebrill 2024, fe wnaeth Estyn gydnabod fod y pennaeth wedi blaenoriaethu dysgu proffesiynol ar gyfer unigolion a thimau a bod disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar gyfer dysgu disgyblion. O ganlyniad, "teachers plan and deliver engaging learning experiences for all pupils that support most to make strong progress".<br><br>Hefyd, nodwyd bod arfer dysgu sylfaen Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn gryf. Mae adroddiad monitro Estyn yn tynnu sylw at y ffaith bod y staff yn y dosbarthiadau hyn yn defnyddio "their observations of pupils to carefully inform their planning to take account of pupils' developing strengths" (adroddiad Saesneg yn unig). Yn yr un modd, mae athrawon mewn dosbarthiadau hŷn yn "focus well on developing pupils' understanding of what they are learning and why". Mae'r sicrwydd ansawdd yma gan Estyn yn rhoi hyder i'r Cyngor na fydd unrhyw effaith andwyol ar safonau a chynnydd disgyblion. Yn ogystal, mae gan Ysgol Gynradd Coedpenmaen gylch monitro, gwerthuso ac adolygu cadarn a manwl sy'n dangos yn effeithiol sut mae Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn monitro cynnydd a safonau pob disgybl yn strategol.<br><br>Yn olaf, byddai unrhyw ddisgyblion newydd sy'n symud i Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn rhan o'r system hynod effeithiol yma, a disgwyliad y Cyngor yw y byddai pob disgybl newydd yn |

| | |
|---|---|
| | adeiladu ar eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ac yn eu datblygu ymhellach, ac o ganlyniad yn gwneud cynnydd cryf. |

## 7. Asesiad o'r Ymgynghoriad

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2[il] Argraffiad) (011/2018), rydyn ni wedi cynnal asesiad pellach o'r cynnig. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad ar yr un materion a gafodd eu hasesu wrth lunio'r cynnig, yn ogystal â rhoi ystyriaeth i'r ymatebion a dderbyniwyd yn rhan o'r ymgynghoriad.

Ar ôl ystyried y cynnig ymhellach, ac ystyried yn ofalus yr ymatebion a dderbyniwyd i'r cynnig, mae modd cyrraedd y casgliadau isod.

## 8. Casgliad

Ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, gwybodaeth gysylltiedig a chynnwys yr adroddiad hwn, mae'n ofynnol i'r Cabinet benderfynu a ydyn nhw'n dymuno bwrw ymlaen â'r cynnig, ac, os felly, sut i wneud hynny.